



Ymchwil Arennol

Ar y 9fed o Ebrill am 10yb, aeth nifer o bentrefwyr, ffrindiau ac ymwelwyr ar ein taith gerdded flynyddol er budd **Ymchwil Arennol**.

Hwrê! Daeth yr haul allan wrth i bawb ymgynnull ger y pafiliwn; yn oedolion, plant a chŵn i ddechrau ar ein taith. Aethom ni yn ein blaenau trwy Llwyn, i fyny at Bertheos, dros y Bont Rufeinig a Phenrhiw, gan ddychwelyd y tu ôl i'r castell ac yn ôl i'r pentref, gan gymryd rhwng 2 awr a 2 awr a hanner i gyd.

Roedd roliau bacwn a chacennau cartref, ynghyd â phaned haeddiannol o de yno i groesawu pawb yn ôl.

Dymunwn ni unwaith eto ddiolch i bawb wnaeth helpu ar y diwrnod a chadwch lygad am y daith gerdded flwyddyn nesaf. Fe wnaethon ni godi **£420** sy'n anhygoel. Bydd yr arian hwn yn mynd yn uniongyrchol tuag at waith ymchwil angenrheidiol. *Myfanwy Chapman*

Noson Goffi

er budd Sioe Arddio
Dolwyddelan

Croeso i bawb

Nos Wener yr 9fed o
Fehefin am 6.30 yr hwyr

Meithrinfa'r Felin



Dydd Sul 18fed o Fehefin

2 - 4 yp

Ymunwch â ni ym

Mhlas Penaeldroch

un o'r lleoliadau yn y dathliad

CENEDLAETHOL hwn o gymunedau er cof am yr AS Jo Cox.

Rydym ni'n cynnig rhywle i eistedd a mwynhau'r olygfa, ac efallai i gysgodi rhag y tywydd. Gofynnwn ichi ddod â'ch bwyd a'ch diod eich hun, ynghyd â phethau melys i'w rhannu gyda phobl eraill. Dyma gyfle i gyfarfod gydag a siarad gyda'ch cymdgonion.

Mae croeso mawr i bawb.



Os hoffech chi gyfrannu unrhyw beth at **Gylchlythyr Dolwyddelan**, neu os oes gennych chi unrhyw awgrymiadau neu sylwadau ynghylch beth hoffech chi ei weld yn y cylchlythyr, cysylltwch gyda ni.

Dewch ag unrhyw beth draw i'r Pafiliwn er sylw Shaun Hewitt neu anfonwch E-bost at: shaunhewitt@me.com

Dyddiad cau unrhyw gynnwys ar gyfer Cylchlythyr yr Hydref (Medi/Hydref/Tachwedd) ydy dydd Gwener, Awst 11fed.